| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu** |
| **DYDDIAD** | **18 Tachwedd 2021** |
| **TEITL** | **Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau ( Cymru) 2021** |
| **Amcan** | **Diweddaru y Pwyllgor ar y cynnydd yn y rhaglen waith a newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor.** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Derbyn yr adroddiad a cytuno ar yr argymhelliad ynglŷn a maint y Pwyllgor i'r dyfodol.** |
| **AWDUR** | **Swyddog Monitro** |

**1. Rhagarweiniad**

1.1 Bydd y pwyllgor yn cofio i mi adrodd ar y rhaglen waith arfaethedig er gweithredu Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiad( Cymru) 2021. Roedd nifer o gamau gweithredu yn deillio o ddarpariaethau'r Ddeddf. Yn dilyn Cydsyniad Brenhinol bydd y darpariaethau yn parhau i ddod i rym drwodd i 2022. Gall fod rhai darpariaethau yn cael eu gweithredu ar ddyddiadau hwyrach bel mae gofyn am reoliadau.

2. **Y Ddeddf**

2.1 Derbyniodd y Ddeddf Gyd-Syniad brenhinol ar yr 20fed o Ionawr 2021 . Mae naw prif ran i'r Ddeddf sydd yn berthnasol i Brif Gynghorau Cynghorau Tref a Chymuned ac Awdurdodau eraill.

RHAN 1 - ETHOLIADAU
RHAN 2 – PŴER CYMHWYSEDD CYFFREDINOL I AWDURDODAU LLEOL
RHAN 3 - HYBU MYNEDIAD AT LYWODRAETH LEOL
RHAN 4 – GWEITHREDIAETHAU, AELODAU, SWYDDOGION A PHWYLLGORAU AWDURDODAU LLEOL
RHAN 5 – CYDWEITHIO GAN BRIF GYNGHORAU
RHAN 6 – PERFFORMIAD A LLYWODRAETHU PRIF GYNGHORAU
RHAN 7 – UNO AC AILSTRWYTHURO PRIF ARDALOEDD
RHAN 8 – CYLLID LLYWODRAETH LEOL
RHAN 9 – AMRYWIOL

3. **Rhaglen Waith**

Mae'r Deddf eisoes wedi ei gosod o fewn y Gofrestr Risg Corfforaethol oherwydd ei arwyddocâd. Mae'r Rhaglen Waith ( Atodiad 1) yn ymwneud ag ystod o dasgau sydd yn bennaf ynglŷn a'r Gwasanaeth Cefnogaeth Gorfforaethol a Gwasanaethau Cyfreithiol. Mae'r Rhaglen waith yn rhoi trosolwg a sicrwydd ar y gweithredu ac tu cefn i hyn mae gwaith cyson manwl yn parhau i ddod a'r darpariaethau yma yn weithredol.

4. **Newidiadau Cyfansoddiadol**

Mae newidiadau penodol i swyddogaethau a chyfansoddiad y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu o fewn y Ddeddf.:

- Newidir enw y Pwyllgor i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
- Mae'n ysgwyddo rôl ynglŷn a trefniadau  cwynion
- Rhoddir swyddogaethau y penodol ynglŷn a'r trefniadau rheoli perfformiad newydd yn Rhan 6 o'r Ddeddf
- Byd gofyn newid aelodaeth y Pwyllgor o Fai 2022 Er sicrhau fod 1/3 yr aelodaeth yn aelodau lleyg.
- Rhaid penodi y cadeirydd o blith yr aelodau lleyg.

Mae'r newidiadau a nodir yn statudol ac yn cymryd effaith o'r dyddiad a nodir yn y Rhaglen Waith. Mae Atodiad 2 yn dangos y prif newidiadau i'r Cyfansoddiad rwy'n bwriadu eu gweithredu o dan paragraff 2.6.3 o'r Cyfansoddiad

**2.6.3 Newid Deddfwriaethol**

Caiff y Swyddog Monitro ddiwygio unrhyw ran o'r Cyfansoddiad lle y mae diwygiad o'r fath yn angenrheidiol er mwyn cydymffurfio ag unrhyw ddarpariaeth ddeddfwriaethol. Bydd diwygiadau o'r fath yn dod i rym pan fydd y Swyddog Monitro yn penderfynu felly neu pan fydd y ddeddfwriaeth (lle y bo'n berthnasol) yn darparu ar gyfer hynny. Bydd newidiadau o'r fath yn cael eu hadrodd i gyfarfod nesaf y Cyngor Llawn er gwybodaeth.

Mae'r gofyn ar gyfer aelodau cadeirydd  lleyg ( fydd yn weithredol ym Mai 2022) angen ei ymgorffori yn y Cyfansoddiad i ddod yn weithredol ar yr amser priodol. Esgor hyn ar gwestiwn ynglŷn a maint priodol  y pwyllgor. Ar hyn o bryd mae 18 aelod o'r Pwyllgor ynghyd ag 1 aelod lleyg. Ar y sail yma byddai 6 aelod lleyg a 12 aelod etholedig ar y Pwyllgor o Fai 2022.

Cychwynnwyd ar y  broses ar gyfer penodi aelodau lleyg eisoes. Golygai hyn gymryd rhan mewn ymgyrch hysbysebu  gan CLlLC. Sefydlwyd y drefn  penodi gan y Cyngor yn 2017.  Fodd bynnag cyn y gellir cwblhau y broses mae angen penderfyniad ar faint cyfansawdd y pwyllgor i'r dyfodol.

Mae nifer o opsiynau wrth gwrs. Fodd bynnag a chan ddal sylw at faint Pwyllgorau Craffu ymddengys fod 18 yn parhau yn ffigwr priodol er parhau. Er gwaethaf y gostyngiad yn nifer aelodaeth y Cyngor byddai hyn yn caniatáu 12 aelod etholedig. Fodd bynnag ceisir barn y Pwyllgor.

**Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

1. **Cymeradwyo y cynnydd yn y Rhaglen Waith a cheisio diweddariad ar gyfer cyfarfod Mis Chwefror.**
2. **I argymell maint aelodaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'r Cyngor i fod yn weithredol o 5 Mai 2022.**
3. **I nodi y newidiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad i'w cyflawni gan y Swyddog Monitro.**